

## **Cyngor Tref Llandeilo Fawr**

### **Llandeilo Fawr Town Council**



#### **Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 28<sup>ain</sup> o Fehefin 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.**

**Presennol:** Y Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Lesley Prosser.  
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)  
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)  
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Eifion Davies.

**Datganiadau o fuddiant.** Dim.

#### **Materion yn ymwneud â'r Heddlu.**

Dywedodd y SCCH Roger Anthony bod teithwyr wedi bod yn dwyn alcohol o Siop y Co-operative a CK's. Mae'r ymholiadau'n parhau. Achosodd grŵp o ferched helynt tu allan i CK's a bu'n rhaid eu gwahanu.

Roedd y Cyng. Dawn Wallace yn pryderu bod cerbydau'n goryrru trwy'r Dref. Dywedodd hi hefyd fod rhai'n parcio tu allan i'r Cawdor i fynd i siopa. Dywedodd y SCCH Anthony bod y Swyddog Parcio wedi cael ei ddwrddio droeon.

Fe wnaeth y Cyng. Rebecca Butcher grybwyll y mater bod cerbydau'n mynd ar dir yr ysgolion Cynradd ar ddechrau'r dydd. Dywedodd y SCCH Anthony eu bod yn patrolio'r ardal yn gyson, ond ei fod yn fater i'r ysgolion i'w ddatrys.

#### **Cof 76 / Meh / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir**

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Dywedodd bod yr arwydd tu allan i CK's wedi cael ei wneud. Roedd gŵr lleol, Geoffrey Williams, wedi codi £2,500 i Tŷ Hafan, trwy drefnu gêm bêl-droed elusennol. Cynigodd y Cyng. Rebecca Butcher bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i Mr Williams, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace.

#### **Cof 77 / Meh / 17 Cofnodion Blaenorol**

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 24<sup>ain</sup> o Fai 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir gyda'r diwygiad canlynol:-

*Ynglŷn â Cof 47/Mai /17 Cyfrifon i'w talu i Hugh Gwynne, angen newid 'Parc Penlan' i 'Gardd Heol Cilgant'.*

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 14<sup>eg</sup> o Fehefin, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir gyda'r diwygiad canlynol:-

*Ynglŷn â Cof 64/ Meh / 17( 1) mae angen cywiro'r datganiad ar y cais am grant i ddarparu camerâu CCTV ym Mharc Le Conquet i 'nid oedd yn cydymffurfio'.*

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn gyda'r diwygiad canlynol:-

*Ynglŷn â Cof 72/ Mai /17 (5) mae angen newid 'cafodd y cynnig ei gario' i 'cafodd y cynnig gwreiddiol ei gario a chafodd y diwygiad ei drechu'.*

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 78 / Meh / 17 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol**

Ynglŷn â Cof 59 / Mehefin / 17 Mewn ymateb i'r Cyng. Robert Jones, dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb gan Graham Noakes, hyd yn hyn, mewn perthynas ag ymholiad y Cyngor.

Ynglŷn â Cof 69 / Mehefin /17. Holodd y Cyng. Geraint Price pam fod yswiriant ar gyfer Parc Le Conquet wedi cael ei dalu, gan nad ydym ni wedi arwyddo'r brydles eto. Dywedodd y Cyng. Edward Thomas y gwnaethpwyd hyn ar gyngor ein Cyfreithiwr.

### **Cof 79 / Mehefin / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb**

1. Ken Murphy, YAD. Darllenodd y Clerc y llythyr cyfnewid ffurfiol, mewn perthynas ag estyniad i'r brydles rhwng y Cyngor ac YAD. Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby bod y Clerc yn arwyddo'r cytundeb, ar ran y Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.
2. Cyfarfod Polisi a Phartneriaeth CSG. Nodwyd.
3. Yr Arolygydd Cymorth Gweithredol James Davies, gyda chais i annerch y Cyngor. Trefnwyd iddo annerch y Cyngor am 7.00yh ar y 26<sup>ain</sup> o Orffennaf, cyn Cyfarfod y Cyngor Llawn.
4. Y Cyng. Christoph Fischer ynglŷn â Ffair Lyfrau. Cytunodd y Cyngor cyfan i sicrhau bod Neuadd y Sir ar gael ar gyfer y digwyddiad hwn ar y 9<sup>fed</sup> o Ragfyr.
5. Valerie Constable, ynglŷn â sbwriel ar Bont y Brenin. Dywedodd y Cyng. Edward Thomas ei fod wedi casglu nifer o fagiau plastig. Byddai'n gofyn i CSG i osod arwydd, yn atgoffa pobl o'u cyfrifoldeb i waredu sbwriel yn gyfrifol.

### **Cof 80 / Mehefin /17 Gohebiaeth er gwybodaeth**

1. Tanja Neymar-James CSG, yn cadarnhau lle'r Cyng. Gordon Kilby fel llywodraethwr mân awdurdod ar Ysgol Gynradd Llandeilo.
2. Gwasg Gomer, mewn perthynas â dyfynbris i ailargraffu taflenni Llwybr Tref Llandeilo. Cytunwyd i osod y mater ar Agenda cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.

### **Cof 81 / Mehefin / 17 Materion Ariannol**

#### **1. Cyfrifon i'w talu**

	Net	TAW	Cyfanswm
Orchardweb (diweddar'u'r wefan)	£ 95.00		£ 95.00*
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 147.45		£ 147.45*
David Rice Forestry (Parc Penlan)	£ 350.00		£ 350.00*
BT (Band Llydan) du	£ 50.72	£ 10.14	£ 63.84
BT (Ffôn) du	£ 53.20	£ 10.64	£ 63.84
Gwynne Fencing (Parc Penlan)	£ 300.00	£ 60.00	£ 360.00*
Cawdor (Derbyniad y Maer)	£ 3,194.29	£ 638.86	£3,833.15*

Lyn Llewellyn (Archwilydd Mewnol)	£ 365.00		£ 365.00*
N Wall (atgyweirio cadwyn y Maer)	£ 20.00		£ 20.00#
The Works (Llandeilo yn ei Blodau)	£ 196.77		£ 196.77*
The Works (Llandeilo yn ei Blodau)	£ 235.85		£ 235.85*
ABS (archwilio diffoddiaduron) DD615	£ 55.95	£ 11.19	£ 67.14*
CGGC (gwein cyflogres Mehefin)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Mark Davies (ffotograffau)	£ 100.00		£ 100.00#

du - debyd uniongyrchol # - sic \* bacs.

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Christoph Fischer. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 82 / Mehefin / 17 Materion Ariannol Eraill**

#### 1. Archwiliad 2016/17

Dywedodd y Swyddog Cyllid bod angen anfon dogfennau'r Archwiliad eleni at Grant Thornton erbyn y 10<sup>fed</sup> o Orffennaf. Arwyddodd y Maer y dogfennau ar ran y Cyngor, yn cadarnhau'r mewnosodiadau ychwanegol. Roedd yr Archwilydd Mewnol, Mr Lyn Llewellyn, wedi cwblhau ei waith ac adroddodd fod y materion i gyd wedi cael eu cwblhau'n foddhaol.

#### 2. Adroddiad Diwedd Blwyddyn Blyneddol 2016/17.

Dywedodd y Swyddog Cyllid y gorwariwyd yn ystod y flwyddyn.

Roedd hyn yn bennaf oherwydd rhoddion a oedd heb eu cynnwys yn y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys:-

£ 2,000 ar gyfer Sefydliad Llenyddol a Neuadd Gyhoeddus Llandeilo.

£ 3,000 i gefnogi cynlluniau Menter Bro Dinefwr ar gyfer prosiect Neuadd y Sir.

£ 1,500 ar gyfer yr arolwg Trosglwyddo Asedau.

Adroddodd bod buddsoddiad parhaus y £30,000 wedi bod yn benderfyniad pwysig iawn i'r Cyngor, ond mae'n bosib bydd yn cael ei gyfyngu gan anghenion eraill yn y dyfodol.

Roedd y gyllideb ar gyfer 2017/18 wedi cael ei rewi, fel safle diofyn, nes bod penderfyniad ynghylch Trosglwyddo Asedau wedi cael ei wneud.

Unwaith y cymerodd y Cyngor gyfrifoldeb am y parciau, fe gytunwyd ar gynllun 5 mlynedd. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bleidlais o ddiolch i Mr Plummer am ei holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd, gyda chefnogaeth barhaus y Cynghorwyr, gall y Cyngor gyflawni ei amcanion. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas.

### **Cof 83 / Mehefin / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol**

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddsbarthu ymlaen llaw. Roedd Llwybr Troed 69/4 sy'n arwain i'r bont grog, wedi cael ei chwynnu gan aelod o'r cyhoedd. Roedd ef wedi rhoddi archeb DD616 i Terry Davies i atgyweirio tap yn nhoiledau'r merched yn Neuadd y Sir.

Roedd Mr Davies wedi derbyn dyfynbris o £40 gan Rclean Wales, i lanhau ffenestri Neuadd y Sir. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y dyfynbris hwn yn cael ei dderbyn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 84 / Mehefin / 17 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau**

Rhoddd y Cyng. Edward Thomas y diweddaraf ar y datblygiadau diweddar mewn perthynas â Throsglwyddo Asedau Parc Penlan a Pharc Le Conquet. Dywedodd y Cyng. Thomas bod y cyfreithiwr Edward Friend wedi derbyn cadarnhad gan CSG y byddai'r Drwydded a arwyddwyd yn cael ei hôl-ddyddio i'r 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2017.

Roedd pawb yn gytûn fod Parc Penlan yn edrych yn llawer glanach.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod £60 yr wythnos yn cael ei dalu i Mr Hugh Gwynne, i gasglu sbwriel yn y ddau barc. Roedd hyn yn golygu casglu sbwriel ddwywaith yr wythnos. Roedd pawb o blaid.

Fe fydd contract Mr Gwynne i dorri'r borfa yn y ddau barc yn cychwyn ar y 1<sup>af</sup> o Orffennaf. Roedd angen gwneud gwaith adferol ar y canlynol:-

Atgyweirio'r wal ger y cwrt tenis ac atgyweirio to'r hen bafiliwn Bowls.

Gofynnwyd i Mr Davies baratoi dogfennau tendro ar gyfer y gwaith yma. Cynigwyd hyn gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 85 / Mehefin / 17 Trawsgludiaeth a Phrifyrdd**

1. Hysbysiad gan Atkins Global bod yr AC (TRA) yn dymuno cyflwyno cyfyngiadau aros yn Ffairfach, mewn tri lleoliad gwahanol. Cynigodd y Cyng. Rebecca Butcher bod y Clerc yn anfon llythyr yn gwrthwynebu'r cynigion, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 86 / Mehefin / 17 Adroddiad y Maer**

Darllenwyd y canlynol yn absenoldeb y Maer:-

- 2 Mehefin Cychwyn rasys y 3 pharc yng Nghae William gyda Chymdeithas Trefeillio Llandeilo.
- 3 Mehefin Gêm bêl-droed Tŷ Hafan yn Ysgol Tregib.
- 9 Mehefin Agor y cinio gwas ffarm ar ran Clwb Rotari Llandeilo.
- 10 Mehefin Cyngerdd Bois y Castell yng Nghapel Newydd.
- 11 Mehefin Cadeirio Gwasanaeth Dinesig CSG.
- 22 Mehefin Mynychu Cinio Trosglwyddo'r Rotari yn y Plough.
- 24 Mehefin Te Mefus yn Eglwys Sant Teilo a Chyngerdd yn y Neuadd Ddinesig, yng nghwmni'r Dirprwy Faer.

### **Cof 87 / Mehefin / 17 Adroddiadau Eraill**

1. Cofnodion Gweithgor Neuadd y Sir.

Yn dilyn y cyfarfod gyda Ken Murphy, roedd Prif Weithredwr YAD wedi cyfnewid llythyrau gyda'r Cyngor mewn perthynas â newidiadau i'r brydles, oherwydd nad yw YAD mewn sefyllfa i symud o Neuadd y Sir ar hyn o bryd. Gofynnodd y Clerc am ganiatâd y Cyngor i arwyddo'r trefniadau prydles newydd. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod argymhelliad y Gweithgor i gymeradwyo'r newidiadau yn cael ei dderbyn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

2. Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.

Byddai'r arddangosfa gyhoeddus eleni'n cael ei chynnal ar nos Wener y 3<sup>ydd</sup> o Dachwedd. Bydd y gatiâu'n agor am 6.00yh ac fe fydd yr arddangosfa'n cychwyn am 7.30yh.

Pendragon Fireworks fydd yn cynnal yr arddangosfa a chytunwyd ar gyllideb o £4,500. Mae'r prisiau wedi aros yr un fath a llynedd, gyda mynediad yn £3 i oedolion a £1 i blant.

Cynigodd y Cyng. Rob Jones ein bod ni ddim yn paratoi rhaglen eleni, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cyfarfod nesaf, 6<sup>ed</sup> o Fedi am 6.00yh.

3. Adroddiad is-grŵp Llandeilo yn ei Blodau. Roedd y Cyng. Geraint Price wedi dosbarthu'r adroddiad cyn y Cyfarfod. Roedd y gwaith plannu wedi cael ei gwblhau erbyn hyn. Cytunwyd byddai'r Clerc yn anfon llythyr o ddiolch i Mr Gerwyn Davies o'r NFU am lenwi'r potiau. Diolchwyd i'r grŵp am eu gwaith caled.

**Cof 88 / Mehefin / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20yh.